77. Brics glo Newheat, a weithgynhyrchir gan Oxbow Coal BV yn Newfield Works, Bishop Auckland, Swydd Durham—

- (a) a gyfansoddir o ologsg petrolewm (sef tua 60 i 65% o'r cyfanswm pwysau), glo caled (sef tua

30 i 35% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr resin sy'n caledu wrth oeri, caledwr a sefydlogydd tymheredd isel (sef gweddill y pwysau);

- (b) a gynhyrchwyd ar y tymheredd amgylchynol drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a chaledu oer;
- (c) sy'n frics glo hirgrwn, heb eu marcio ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwyso tua 100 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy nag 1.9% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

78. Optima Fire Logs, a weithgynhyrchir gan Allspan BV ym Macroweg 4, 5804 CL Venray, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 58 i 59% o'r cyfanswm pwysau), a blawd llif pren caled (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 235 o filimetrau o hyd a 80 o filimetrau o ddyfnder, gyda rhigolau ar hyd yr wynebau;
- (d) sy'n pwyso 1.1 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 0.1% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

79. Pagan Fuel's Restaurant Charcoal, a weithgynhyrchir gan Pabensa S.A. Aviadores del Chaco, Asuncion, Paraguay—

- (a) a gyfansoddir o'r coedydd caled *Prosopis nigra*, *Cordia alliodora*, *Centrolobium*, *Prosopis kuntzei*, *Caesalpinia*, *Goncalo alves* a *Tabebuia* a byrolwyd;
- (b) a weithgynhyrchwyd gan ddefnyddio proses o byrolsis mewn olyn ar tuag 800°C;
- (c) sy'n ddarnau o siarcol heb eu marcio rhwng 20 a 120 o filimetrau; a
- (d) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau sych yn sylffwr.

80. Brics glo Phurnacite, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lwch glo caled (sef tua 65 i 85% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 20% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);

- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp ofoidau â dwy linell gyfochrog yn rhedeg yn hydredol o amgylch y fricsen;
- (d) sy'n pwyso 40 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

81. Brics glo Phurnacite a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lwch glo caled (sef tua 65 i 85% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 20% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig neu rwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o hyd at 300°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp ofoidau â dwy linell gyfochrog yn rhedeg yn hydredol o amgylch y fricsen;
- (d) sy'n pwyso 40 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

82. Brics glo Phurnacite a weithgynhyrchir gan CPL Fuels Ireland, Foynes Briquetting Works, Foynes Port, Foynes, Co. Limerick, Iwerddon—

- (a) a gyfansoddir o lwch glo caled (sef tua 65 i 85% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 20% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig neu rwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o hyd at 300°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp ofoidau â dwy linell gyfochrog yn rhedeg yn hydredol o amgylch y fricsen;
- (d) sy'n pwyso 40 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

83. Brics glo ProQ COCOCHA Coconut Shell a weithgynhyrchir gan Siantan Suryatama PT, Golden

Boulevard W2/19, BSD City, Tangerang, Indonesia—

- (a) a gyfansoddir o bowdr cragen cneuen goco wedi ei garboneiddio (sef tua 95% o'r cyfanswm pwysau), starts naturiol o blanhigion (sef tua 4.95% o'r cyfanswm pwysau), asid bensoaidd (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd drwy broses sy'n cynnwys carboneiddio cragen cneuen goco grai hyd at 600 gradd Celsius gan gynhyrchu'r powdr o gragen cneuen goco a chaiff ei falu, ei hidlo, ei gymysgu â'r cyfansoddion eraill, ei allwthio, ei dorri yna ei sychu hyd at 110 gradd Celsius;
- (c) sy'n frics glo ciwboid petryal heb eu marcio o faint 50 x 40 x 30 mm neu 40 x 30 x 25 mm;
- (d) sy'n pwyso rhwng 54 a 56 gram y fricsen neu rhwng 26 a 28 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 1% o gyfanswm eu pwysau sych yn sylffwr.

84. Pyrobloc Fire Logs, a weithgynhyrchir gan Allspan BV ym Macroweg 4, 5804 CL Venray, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 58 i 59% o'r cyfanswm pwysau), a blawd llif pren caled (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 265 o filimetrau o hyd a 80 o filimetrau o ddyfnder, gyda rhigolau ar hyd yr wynebau;
- (d) sy'n pwyso 1.3 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 0.1% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

85. Red Drops, a weithgynhyrchir gan EU Zeme Limited, Lāčplēša street 48, Rīga, LV-1011, Latfia—

- (a) a gyfansoddir o falurion glo caled (sef tua 73% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 18% o'r cyfanswm pwysau), a rhwymwr triagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu, ac wedyn eu trin â gwres o tua 250 i 280°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd sydd bron yn grwn, gyda diamedr o 40 o filimetrau a thrwch o tua 21 o filimetrau yng nghanol y fricsen;
- (d) sy'n pwyso 23 gram ar gyfartaledd; ac

- (e) nad yw mwy nag 0.5% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

86. Safelight Firelogs, a weithgynhrychir gan Advanced Natural Fuels Limited, yn Pocklington, Dwyrain Swydd Efrog—

- (a) a gyfansoddir o sglodion pren (sef tua 40 i 55% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o gwyr palmwydd (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys gwasgu'r cynhwysion, ar ôl eu cymysgu, ar dymheredd o tua 40°C i 50°C;
- (c) sy'n foncyffion tân petryal caled â dwy agen ddofn sy'n gorgyffwrdd ar yr wyneb uchaf, un agen ddi-dor ar yr wyneb isaf;
- (d) sy'n pwyso 1.8 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

87. Smokeless Coal No5 a weithgynhrychir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 60 i 80% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 10 i 30% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 0 i 17% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl/asid neu rywimwr organig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o hyd at 300°C;
- (c) sydd naill ai'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd neu'n frics glo ar siâp gobennydd wedi eu marcio â hicyn ar ffurf llinell hydredol sengl ar bob wyneb, 10 milimetr i ffwrdd o'r llinell gyfatebol gyferbyn;
- (d) sy'n pwyso 55 neu 80 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

88. Brics glo Sovereign, a weithgynhrychir gan Monckton Coke & Chemical Company Limited yn Royston, ger Barnsley, De Swydd Efrog—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 75% o'r cyfanswm pwysau), glo a golosg adweithiol (sef tua 21% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr resin sy'n caledu wrth oeri (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys allwthio;
- (c) sy'n frics glo chweonglog heb eu marcio;

- (d) sy'n pwysu 130 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

89. Brics glo Stoveheat Premium, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lwch glo caled (sef tua 65 i 85% o gyfanswm eu pwysau), golosg petrolewm (sef tua 20% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp clustog, gyda hicyn ar ffurf llinell sy'n ymestyn o amgylch y fricsen;
- (d) sy'n pwysu 30 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

90. Supabrite Coke Doubles, a weithgynhyrchir gan H. J. Banks and Company Limited yn Inkerman Road Depot, Tow Law, Swydd Durham—

- (a) a gyfansoddir o olog metelegol (sef tua 40 i 60% o'r cyfanswm pwysau) a golosg petrolewm (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys eu blendio a'u sgrinio;
- (c) sy'n hapsiapiau heb eu marcio; a
- (d) nad yw mwy nag 1.95% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

91. Brics glo Supacite, a weithgynhyrchir gan Maxibrite Limited yn Ystad Ddiwydiannol Mwyndy, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 84% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 12% o'r cyfanswm pwysau) a starts yn rhwymwr (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 240°C;
- (c) sy'n ofoidau heb eu marcio;
- (d) sy'n pwysu 45 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

92. Superburn Xtra a weithgynhyrchir gan Stafford Fuels Limited, Raheen, New Ross, Swydd Wexford, Y34 H028, Iwerddon—

- (a) a gyfansoddir o gymysgedd o lo caled (sef tua 20 i 60% o'r cyfanswm pwysau), Gronynnau Golosg Petrolewm (sef tuag 20 i 60% o'r cyfanswm pwysau), Gronynnau Glo Meddal (sef tua 15% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig sy'n caledu wrth oeri (hyd at tua 6% o gyfanswm pwysau sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu oer;
- (c) sy'n ofoidau heb eu marcio o faint bras o 85 mm x 60 mm x 40 mm;
- (d) sy'n pwysu 130 gram fesul bric glo ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

93. Brics glo Supertherm, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o gymysgedd (mewn cyfrannedd o 19:1) o lo caled a glo canolig ei anweddolrwydd (sef tua 93% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig sy'n caledu wrth oeri neu rwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu;
- (c) sy'n ofoidau heb eu marcio;
- (d) sy'n pwysu 160 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy nag 1.5% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

94. Brics glo Supertherm II, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 36 i 51% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 40 i 55% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig neu rwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu;
- (c) sy'n ofoidau wedi eu marcio ag un llinell ledredol ar draws un wyneb i bob bricsen neu'n ofoidau heb eu marcio;
- (d) sy'n pwysu 140 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau sych yn sylffwr.

95. Supertherm 30 a weithgynhrychir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 40 i 65% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 20 i 40% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 0 i 20% o'r cyfanswm pwysau), biomas (sef tua 5 i 20% o'r cyfanswm pwysau), cols biomas (sef tua 0 i 10% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig neu rwymwr o driagl ac asid (sef 20% o'r cyfanswm pwysau ar y mwyaf);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o hyd at 300°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd neu, frics glo chweonglog heb eu marcio neu, sy'n ofoidau ar siâp gobennydd wedi eu marcio â hycyn ar ffurf dwy linell gyfochrog sy'n ymestyn yn lledredol o amgylch pob bricsen neu, frics glo chweonglog gydag un streipen sengl ar un ochr ar draws yr wyneb gwastad;
- (d) sy'n pwysu 125 i 135 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

96. Supertherm 30 a weithgynhrychir gan CPL Fuels Ireland, Foynes Briquetting Works, Foynes Port, Foynes, Co. Limerick, Iwerddon—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 40 i 65% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 20 i 40% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 0 i 20% o'r cyfanswm pwysau), biomas (sef tua 5 i 20% o'r cyfanswm pwysau), cols biomas (sef tua 0 i 10% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig neu rwymwr o driagl ac asid (sef 20% o'r cyfanswm pwysau ar y mwyaf);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o hyd at 300°C;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd neu, frics glo chweonglog heb eu marcio neu, sy'n ofoidau ar siâp gobennydd wedi eu marcio â hycyn ar ffurf dwy linell gyfochrog sy'n ymestyn yn lledredol o amgylch pob bricsen neu, frics glo chweonglog gydag un streipen sengl ar un ochr ar draws yr wyneb gwastad;
- (d) sy'n pwysu 125 i 135 gram y fricsen ar gyfartaledd; ac

- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

97. Brics glo Taybrite (a elwir fel arall yn frics glo Surefire), a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 60 i 80% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 10 i 30% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;
- (c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd sydd naill ai wedi eu marcio â hycyn ar ffurf un llinell hydredol ar bob wyneb, 10 milimetr i ffwrdd o'r llinell gyfatebol gyferbyn, neu sydd heb eu marcio;
- (d) sy'n pwyso 80 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

98. Therma Briquettes, a weithgynhyrchir gan Maxibrite Limited yn Ystad Ddiwydiannol Mwyndy, Llantrisant, Rhondda Cynon Taf—

- (a) a gyfansoddir o ronynnau glo caled (sef tua 84% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 12% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr starts (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu a thrin â gwres o tua 250°C;
- (c) sy'n frics glo hirgrwn/ar siâp deigrin gyda llinell drwy'r canol;
- (d) sy'n pwyso 26 gram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

99. Brics glo Thermac, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

- (a) a gyfansoddir o lo caled (sef tua 90% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig sy'n caledu wrth oeri (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rhoio-wasgu;
- (c) sy'n frics glo heb eu marcio ar siâp gobennydd;
- (d) sy'n pwyso 48 gram ar gyfartaledd; ac

- (e) nad yw mwy nag 1.5% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

100. Tiger Tim Firelogs, a weithgynhrychir gan De Lange BV, Rustenburgerweg 3, 1646 WJ Ursem, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 50% o'r cyfanswm pwysau) a blawd llif (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 280 o filimetrau o hyd, 75 o filimetrau o led a 75 o filimetrau o uchder a chanddynt un rhigol yn rhedeg ar hyd pob un o'r pedwar wyneb sy'n 280 milimetr o hyd;
- (d) sy'n pwyso 1.1 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 0.2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

101. Unicite, a weithgynhrychir gan DJ Davies Fuels Limited yn Blaenau Fuel Depot, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin, neu a weithgynhrychir gan AI Simson yn Cabby Latch, Logie ger Kirriemuir, Angus—

- (a) sy'n gymysgedd o'r gwahanol danwyddau a ganlyn—
 - (i) cnapiau mawr o lo caled, a
 - (ii) brics glo Union o'r disgrifiad yn is-baragraff (d) a weithgynhrychir gan RWE Power AG yn Cologne, yr Almaen (sef dim mwy na thua 40 i 42% o gyfanswm pwysau Unicite);
- (b) nad yw ei gynnwys o sylffwr yn fwy na 0.5% o'r cyfanswm pwysau;
- (c) y datgenir nad yw'n danwydd awdurdodedig ond i'r graddau nad yw cyfran y brics glo Union a losgir drwy ddefnyddio Unicite yn uwch na'r ystod o ganrannau a bennir yn is-baragraff (a)(ii); a
- (d) i'r graddau y'i cyfansoddir o'r brics glo Union y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a)(ii), a gyfansoddir o lignit cywasgedig, gyda phob bricsen yn mesur tua 75 o filimetrau o led, 60 o filimetrau o uchder a 55 o filimetrau o drwch.

102. Zip 100% Natural Firelogs, a weithgynhrychir gan Standard Brands (Trading) Ireland Limited yn Castlebellingham, County Louth, Iwerddon—

- (a) a gyfansoddir o gwyrâu triglyserid hydrogenaid o darddiad naturiol (sef tua 53 i 57% o'r cyfanswm pwysau), ffibr helyg (sef tua 23 i 27% o'r cyfanswm pwysau) a

rhwymwr naturiol seiliedig ar driagl (sef gweddill y pwysau);

- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 210 o filimetrau o hyd, 80 o filimetrau o led a 75 o filimetrau o uchder;
- (d) sy'n pwyso rhwng 1.085 ac 1.115 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw eu cynnwys o sylffwr yn fwy na 0.2% o'r cyfanswm pwysau.

103. Zip 100% Natural Firelogs, a weithgynhyrchir gan Standard Brands (Trading) Ireland Limited yn Castlebellingham, County Louth, Iwerddon—

- (a) a gyfansoddir o gwyrâu triglyserid hydrogenaid o darddiad naturiol (sef tua 53 i 57% o'r cyfanswm pwysau), ffibr helyg (sef tua 23 i 27% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr naturiol seiliedig ar driagl (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 245 milimetr o hyd, 75 milimetr o led a 68 milimetr o uchder;
- (d) sy'n pwyso rhwng 0.985 ac 1.015 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 0.2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

104. ZIP 100% Natural Stove Logs, a weithgynhyrchir gan Standard Brands (Trading) Ireland Limited yn Castlebellingham, County Louth, Iwerddon—

- (a) a gyfansoddir o gwyrâu triglyserid hydrogenaid o darddiad naturiol (sef tua 53 i 57% o'r cyfanswm pwysau), ffibr helyg (sef tua 23 i 27% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr naturiol seiliedig ar driagl (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 165 o filimetrau o hyd, 80 o filimetrau o led a 75 o filimetrau o uchder;
- (d) sy'n pwyso rhwng 0.835 a 0.865 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 0.2% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

105. ZIP Cracklelog Firelogs, ZIP Crackle-log Firelogs a ZIP Crackling Log Firelogs, a weithgynhyrchir gan Allspan BV, Macroweg 4, 5804 CL Venray, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 55% o'r cyfanswm pwysau), blawd llif pren caled (sef tua 42% o'r cyfanswm pwysau) a hadau clecian (sef tua 3.2% o'r cyfanswm pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 235 o filimetrau o hyd gyda diamedr o 80 o filimetrau, gyda rhigolau ar hyd yr wynebaw;
- (d) sy'n pwyso 1.1 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 0.1% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

106. ZIP Firelogs, a weithgynhrychir gan Allspan BV, Macroweg 4, 5804 CL Venray, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 58 i 59% o'r cyfanswm pwysau) a blawd llif pren caled (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 265 o filimetrau o hyd a 80 o filimetrau o ddyfnder, gyda rhigolau ar hyd yr wynebaw;
- (d) sy'n pwyso 1.3 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 0.1% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

107. ZIP Firelogs, a weithgynhrychir gan Allspan BV, Macroweg 4, 5804 CL Venray, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 58 i 59% o'r cyfanswm pwysau) a blawd llif pren caled (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;
- (c) sydd tua 235 o filimetrau o hyd a 80 o filimetrau o ddyfnder, gyda rhigolau ar hyd yr wynebaw;
- (d) sy'n pwyso 1.1 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 0.1% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

108. ZIP Firelogs, a weithgynhrychir gan Woodflame Moerdijk BV, Apolloweg 4, Harbour No: M189A, 4782 SB Moerdijk, yr Iseldiroedd—

- (a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 55 i 60% o'r cyfanswm pwysau) a blawd llif pren caled (sef gweddill y pwysau);
- (b) a weithgynhrychwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;

- (c) sydd tua 255 o filimetrau o hyd gyda diamedr o 75 o filimetrau, gyda rhigolau ar hyd un wyneb hydredol;
- (d) sy'n pwysu 1.3 cilogram ar gyfartaledd; ac
- (e) nad yw mwy na 0.1% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.

EXPLANATORY MEMORANDUM TO THE SMOKE CONTROL AREAS (AUTHORISED FUELS) (WALES) REGULATIONS 2019

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Department for Environment, Energy and Rural Affairs and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Smoke Control Areas (Authorised Fuels) (Wales) Regulations 2019.

Lesley Griffiths AM
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs
16 January 2019

1. Description

The Smoke Control Areas (Authorised Fuels) (Wales) Regulations 2019 (“the 2019 Regulations”) revoke and replace the Smoke Control Areas (Authorised Fuels) (Wales) Regulations 2017 (SI 2017 No.421 (W.89)). The 2019 Regulations update the current legislation with newly authorised fuels for the purposes of Part III of the Clean Air Act 1993 (“the 1993 Act”).

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

There are no matters of special interest for the Committee.

3. Legislative Background

The enabling power is contained in section 20(6) of the 1993 Act.

This power was originally conferred on the Secretary of State but was, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by virtue of Article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999/672. This power is now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

This Statutory Instrument is subject to the negative resolution procedure.

4. Purpose and intended effect of the legislation

The 1993 Act (a consolidation of The Clean Air Act 1956 and The Clean Air Act 1968) aims to safeguard public health from emissions of smoke. It empowers local authorities to declare Smoke Control Areas in which it is an offence to emit smoke from chimneys. Households in those areas must use an “authorised” smokeless fuel or use an “exempt” appliance capable of operating without emitting smoke, regardless of the fuel used.

The 1993 Act provides the Welsh Ministers with the power to authorise fuels and appliances for use in Wales’ designated Smoke Control Areas. Authorised fuels are prescribed in regulations.

The fuels listed in the Schedule to the 2019 Regulations have been recently approved as suitable for inclusion on the list of fuels authorised for use in designated Smoke Control Areas. They are included in the Schedule to the 2019 Regulations, alongside fuels previously authorised. The 2019 Regulations revoke and replace The Smoke Control Areas (Authorised Fuels) (Wales) Regulations 2017 and provide a consolidated, up-to-date list of authorised fuels.

5. Implementation

Updating the lists of authorised fuels in the 2019 Regulations will ensure the legislation keeps pace with the development of new smokeless fuels, making them available to households in designated Smoke Control Areas.

Air quality can have fundamental impacts on human health, affecting both the quality and duration of people's lives. A more effective air quality regime will have an important contributory impact in terms of the goals of "A healthier Wales" under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

Updating the lists of authorised fuels also contributes to the achievement of the Healthy and Active strategy within Prosperity for All, the Welsh Government's national strategy as improving air quality improves the health and wellbeing of individuals, families and communities.

6. Consultation

It was considered neither necessary nor appropriate to publicly consult on the 2019 Regulations as they leave the nature of the smoke control regime in Wales unchanged. The 2019 Regulations simply update the list of fuels authorised for use within Wales' designated Smoke Control Areas.

7. Regulatory Impact Assessment (RIA)

The 2019 Regulations do not impose costs on the public, private, or voluntary sectors. An RIA is not therefore deemed necessary.

Eitem 6.1

SL(5)303 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi unedau cynhyrchu ar gyfer asesu gallu cynhyrchiol tir yng Nghymru, ac mae'n pennu'r swm sydd i'w ystyried yn incwm blynyddol net o bob uned o'r fath am y flwyddyn o 12 Medi 2018 i 11 Medi 2019, at ddibenion penodol yn Neddf Daliadau Amaethyddol 1986.

Y weithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir dim pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Ni nodir dim pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgîl gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Gorchymyn yn diffinio "hectar cymwys" drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, sef Rheoliad (UE) 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cefnogi o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin.

O dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, bydd Rheoliad UE 1307/2013 yn rhan o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar y diwrnod ymadael.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb y llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

23 Ionawr 2019



Negyddol Arfaethedig Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

28 Ionawr 2019

Pn(5)011 – Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni a'r Asesiadau Effaith Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r asesiad amgylcheddol o gynlluniau a rhaglenni ac i'r asesiad effaith amgylcheddol ym materion cynllunio gwlad a thref ac amaethyddiaeth.

Mae'r newidiadau a wneir gan yr offeryn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y cyfundrefnau rheoliadol cyfredol yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r diwygiadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn cynnwys:

- Newid cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd i gyfeiriadau at gyfraith / rhwymedigaethau'r UE a ddargedwir;
- Disodli cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd gyda chyfeiriadau at y ddeddfwriaeth ddomestig sydd wedi trosi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd;
- Newid cyfeiriadau at "Aelod-wladwriaethau", yn enwedig yng nghyd-destun y gyfraith ar lefel Aelod-wladwriaethau, i 'unrhyw gyfraith o unrhyw ran o'r DU';
- Diweddarau'r ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r DU hysbysu 'gwladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd' ynghylch



effeithiau amgylcheddol trawsffiniol i adlewyrchu statws newydd y DU y tu allan i'r UE;

- Cynnwys testun o'r Gyfarwydddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol;
- O dan y gyfundrefn ar gyfer amaethyddiaeth, disodli'r cyfeiriad at y Comisiwn Ewropeaidd gyda chyfeiriad at Weinidogion Cymru, a mewnosod gofyniad iddynt ymgynghori â chyrff penodedig cyn gwneud penderfyniad (gweler rheoliad 5(9)).

Gwneir y diwygiadau sy'n weddill o dan Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, gan gynnwys cywiro cyfeiriadau, sydd wedi dyddio, at gyfraith Ewrop.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ni Nodwyd

Pn(5)012 – Rheoliadau Clefydau Egsotig mewn Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru, ym maes rheoli ac atal clefydau egsotig mewn anifeiliaid. Mae'r offeryn yn sicrhau y bydd yr is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yng Nghymru sy'n ymwneud â rheoli ac atal clefydau egsotig mewn anifeiliaid yn parhau i fod yn weithredol yng Nghymru ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ni Nodwyd



Pn(5)013 – Rheoliadau Dileu a Rheoli Afiechydon Milheintiol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r offeryn hwn yn diwygio Rheoliadau Milheintiau (Monitro) (Cymru) 2007 a Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010. Nod y newidiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ôl ymadawiad y DU â'r UE, a byddant yn mynd i'r afael â diffygion mewn deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE.

Mae Rheoliadau Milheintiau (Monitro) (Cymru) 2007 yn rhoi pwerau i arolygwyr fynd i mewn i unrhyw fangre i fonitro milheintiau ac ymwrthedd gwrthficrobaidd i gyfryngau sy'n bygwth iechyd y cyhoedd. Mae rheoliad 3 yn cynnwys cyfeiriad at benodi awdurdod cymwys at ddibenion y Gyfarwyddeb. Gan na fydd y Gyfarwyddeb honno'n rhan o'r gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael, dilëir y cyfeiriad hwnnw. Gwneir mân newid drafftio hefyd ynghylch ystyr "Cyfarwyddeb". Yn dilyn y newid hwn, mae'r unig gyfeiriad ati yn rheoliad 2(2). Mae rheoliad 5 o Rheoliadau 2007 yn galluogi arolygydd sy'n arfer pŵer mynediad o dan Rheoliadau 2007 i gymryd gydag ef gydag unrhyw gynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd. Un enghraifft lle gallai hyn ddigwydd yw archwiliad gan yr UE o allu ym maes milheintiau. Yn dilyn ymadawiad y DU, ni fydd gan y Comisiwn Ewropeaidd ddiddordeb yn y gweithgareddau hyn, ac felly dilëir y cyfeiriad hwnnw. Fodd bynnag, nid yw pwerau'r arolygwyr yng Nghymru yn newid fel arall, a bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau'r un ddarpariaeth o ran presenoldeb a dyletswyddau arolygwyr er mwyn sicrhau bod rheolaethau effeithiol yn parhau i fod yn weithredol mewn perthynas â'r gadwyn fwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 yn gweithredu Cyfarwyddeb 64/432/EEC ynghylch problemau iechyd anifeiliaid sy'n effeithio ar fasnach fewnol y Gymuned mewn anifeiliaid buchol a moch ("Cyfarwyddeb 64/432/EEC"), yn enwedig mewn perthynas â dileu Twbercwlosis. Mae



Cyfarwyddeb 64/432/EEC yn pennu rheolau ynghylch statws iechyd mewn perthynas â chlefydau anifeiliaid, gan gynnwys twbercwlosis, a darpariaethau ar gyfer y profion i'w cynnal gan filfeddygon swyddogol i ganfod y clefydau hyn. Mae'r broses o orfodi'r rheolau hyn yng Nghymru yn cael ei grymuso yng Nghymru yn bennaf drwy Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010. Mae'r Gorchymyn yn diffinio "statws heb dwbercwlosis" drwy gyfeirio at y Gyfarwyddeb. Y cysyniad o "statws heb dwbercwlosis" yw'r gwrthwyneb i'r cysyniad o fuches gyfyngedig, ac felly gwneir newidiadau priodol i adlewyrchu hyn yn y Gorchymyn.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A

Rhiant-Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ni Nodwyd

Pn(5)014 – Rheoliadau Maethiad (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Gweithdrefn: Negyddol

Gwneir yr offeryn hwn drwy ddefnyddio'r pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, er mwyn mynd i'r afael â'r methiant wrth weithredu'n effeithiol gyfraith yr UE a ddargedwir, neu unrhyw ddiffygion sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud gwelliannau i is-ddeddfwriaeth Cymru ym maes maeth.

Mae'r newidiadau mân a thechnegol a wneir gan yr offeryn wedi eu llunio i sicrhau bod y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n rhoi effaith i ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir (Rheoliadau Cymru) yn parhau i weithredu'n effeithiol. Mae'r newidiadau a wneir yn cynnwys cael gwared ar gyfeiriadau at "aelod wladwriaeth", cyfraith/rhwymedigaethau'r UE a diffiniadau o "Gytundeb yr AEE", "Gwladwriaeth AEE", a "dosbarthu rhydd mewn aelod wladwriaethau".



Mae'r newidiadau hefyd yn amcanu i wirio'r cyfeiriadau at Gyfarwyddebau'r UE pan fo angen, a disodli cyfeiriadau at gyrff yr UE gydag enwau awdurdodau cymwys y DU.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod at ddibenion sifftio o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A

Rhiant–Ddeddf: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

Bodlonwyd Gofynion y Sifft: Ni Nodwyd





DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwyllt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	11 Ionawr 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwyllt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019

Mae Rheoliadau 2019 yn diwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir ym meysydd: llygryddion organig parhaus; pren; Cofrestr Ewropeaidd ynghylch Gollwng a Throsglwyddo Llygryddion; cludo llwythi o wastraff dros ffiniau; Protocol Nagoya ynghylch mynediad at adnoddau genetig a rhannu'r manteision mewn modd teg a chydadd; mercwri; trapiau dal coesau; a'r Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau mewn Perygl. Mae Rheoliadau 2019 yn darparu hefyd ar gyfer un swyddogaeth ddeddfwriaethol a gynhwysir ar hyn o bryd mewn Cyfarwydddeb gan yr UE ar allyriadau diwydiannol sy'n ymwneud â'r technegau gorau sydd ar gael (BAT)

Mae Rheoliadau 2019 yn diwygio rhai meysydd deddfwriaethol sydd wedi'u datganoli a rhai sydd wedi'u dargadw gan ddilyn diwygiadau a wnaed gan OSau cynharach Defra'r DU a osodwyd ar gyfer craffu arnynt ddiwedd 2018.

Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwysadwy a ddiwygir gan Rheoliadau 2019.

1. Rheoliad (EC) Rhif 850/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch llygryddion organig parhaus
2. Rheoliad (EC) Rhif 166/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â sefydlu Cofrestr Ewropeaidd ynghylch Gollwng a Throsglwyddo Llygryddion
3. Rheoliad UE 2017/852 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fercwri
4. Rheoliad (UE) rhif 511/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau cydymffurfedd ar gyfer defnyddwyr o Brotocol Nagoya ar Fynediad at Adnoddau Genetig a Rhannu'r Manteision a geir o'u Defnyddio yn yr Undeb mewn modd Teg a Chydadd
5. Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 20173/2005 ar sefydlu cynllun trwyddedu FLEGT ar gyfer mewnforio pren i'r Gymuned Ewropeaidd
6. Rheoliad (UE) rhif 995/2010 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu ymrwymadau gweithredwyr sy'n rhoi pren a chynnyrch pren ar y farchnad
7. Rheoliad (EC) Rhif 1013/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cludo llwythi o wastraff

8. Rheoliad y Cyngor (EEC) rhif 3254/91 sy'n gwahardd defnyddio trapiau dal coesau yn y Gymuned a chyflwyno i'r Gymuned grwyn a nwyddau a weithgynhyrchir o rywogaethau penodol o anifeiliaid gwyllt sy'n dod o wledydd sy'n eu dal mewn trapiau dal coesau neu â dulliau trapio nad ydynt yn cydymffurfio â safonau trapio dyngarol rhyngwladol
9. Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 35/97 sy'n pennu'r darpariaethau ar gyfer ardystio crwyn a'r nwyddau a ddaw o dan Reoliad y Cyngor (EEC) rhif 3254/91
10. Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 338/1997 ar warchod rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion gwyllt trwy reoleiddio'r fasnach ynddynt

Darpariaethau eraill

1. Cyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd mewn ffordd integredig) - caiff swyddogaethau o'r Gyfarwyddeb eu copïo, gan nad yw cyfarwyddebau'n cael eu dargadw o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei gael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Ni effeithir o gwbl ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. O dan Reoliadau 2019, trosglwyddir swyddogaethau Comisiwn yr UE i Weinidogion Cymru ar gyfer meysydd sydd o fewn eu cymhwysedd gan gynnwys:

- llygryddion organig parhaus (Rheoliad (EC) rhif 850/2004);
- Cofrestr Gollwng a Throsglwyddo Llygryddion (Rheoliad (EC) rhif 166/2006);
- mercwri (Rheoliad (UE) Rhif 2017/852); a
- mabwysiadu casgliadau BAT (Cyfarwyddeb 2010/75/EU).

Yn ogystal, mae Rheoliadau 2019 yn darparu ar gyfer y swyddogaethau hynny y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn eu harfer mewn cysylltiad â Chymru, ond dim ond â chaniatâd Gweinidogion Cymru.

Mae Protocol Nagoya ar fynediad at adnoddau genetig a rhannu'r manteision a geir o'u defnyddio yn yr Undeb mewn modd teg a chydaddwrdd (Rheoliad (UE) rhif 511/2014) yn faes cymysg ei gymhwysedd. Fodd bynnag, gan nad yw'n ymarferol bosibl i Weinidogion Cymru arfer y swyddogaethau hyn yn annibynnol, nid oes gwahaniaeth yn y polisi a byddai'n well mabwysiadu system ar gyfer y DU gyfan. Mae Rheoliadau 2019 yn cadw status quo y deddfwriaeth bresennol gyda'r swyddogaethau'n cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig.

Mae gweddill y Rheoliadau Ewropeaidd sy'n cael eu diwygio yn trosglwyddo swyddogaethau Comisiwn yr UE yn gyfangwbl i'r Ysgrifennydd Gwladol gan eu bod yn ymwneud â meysydd deddfwriaethol a ddargedwir.

Diben y diwygiadau

Mae'r OS hwn, sy'n dilyn y weithdrefn gadarnhaol, yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE.

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud nifer o gywiriadau i gyfraith yr UE a ddargedwir. Maent yn ymwneud â swyddogaethau deddfwriaethol ac mae angen eu gwneud er mwyn cadw'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r meysydd a enwir uchod ac isod ac er mwyn i ddeddfwriaeth yr UE allu parhau i weithio ar draws y DU pan fydd y DU wedi gadael yr UE. Maent yn dod â newidiadau i swyddogaethau deddfwriaethol ynghyd sy'n cychwyn y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ond cafodd swyddogaethau anneddfwriaethol eu cynnwys mewn OSau Defra negyddol a osodwyd ddiwedd 2018 ar gyfer pob un o'r meysydd deddfwriaethol.

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud cywiriadau i fynd i'r afael â diffygion yn y ddeddfwriaeth er mwyn i'r ddeddfwriaeth allu gweithio ar ôl gadael yr UE. Mae Rheoliadau 2019 yn newid enw'r cyrff sy'n cyflawni'r swyddogaethau penodedig deddfwriaethol eu natur ac yn newid gweithdrefnau'r UE yn rhai'r DU yn ôl y gofyn.

Mae Rheoliadau 2019 yn diwygio'r canlynol:

- Rheoliad (EC) rhif 850/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar lygryddion organig parhaus er mwyn i'r Rheoliadau allu parhau i weithio. Byddant yn gweithredu Confensiwn Stockholm drwy waredu a chyfyngu ar y defnydd o gemegion sydd wedi'u cydnabod yn rhyngwladol fel rhai gwenwynig, parhaus, biogronnol a symudol iawn. Mae'r darpariaethau yn yr offeryn hwn yn gysylltiedig â'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018.
- Rheoliad (EC) rhif 166/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch sefydlu Cofrestr Gollwng a Throsglwyddo Llygryddion, er mwyn cadw cofrestr ar gyfer y DU gyfan ar ôl ymadael â'r UE ac er mwyn gallu parhau i fodloni ymrwymïadau rhyngwladol fel Protocol PRTR Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig. Mae'r darpariaethau yn yr offeryn hwn yn gysylltiedig â'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Amrywiol a Dirymu Deddfwriaeth Uniongyrchol yr UE a Ddargedwir) (Ymadael â'r UE) 2018.
- Rheoliad (UE) Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch mercwri, er mwyn i Reoliadau allu parhau i weithio. Bydd yn rhoi Confensiwn Minamata ar waith, sy'n rheoli mercwri a'i gyfansoddion a allai gael eu rhyddhau i'r amgylchedd o ganlyniad i weithgarwch pobl, hynny i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd. Mae'r darpariaethau yn yr offeryn hwn yn gysylltiedig â'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018.
- Rheoliad (UE) rhif 511/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau cydymffurfedd defnyddwyr o Brotocol Nagoya ar Fynediad at Adnoddau Genetig a Rhannu'r Manteision a geir o'u Defnyddio yn yr Undeb mewn modd Teg a Chydradd. Mae'r diwygiadau i'r Rheoliad yn sicrhau bod y DU yn parhau i gydymffurfio â chytundeb rhyngwladol, Protocol Nagoya gan roi sicrwydd i'r sefydliadau ymchwil a datblygu wrth iddynt gynnal eu gweithgareddau. Mae'r darpariaethau yn yr offeryn hwn yn gysylltiedig â'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Protocol Nagoya (Cydymffurfio) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018.

- Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 2173/2005 ar sefydlu trwydded Gorfodi, Llywodraethu a Masnachu Cyfraith y Goedwig (FLEGT); a Rheoliad (EU) rhif 995/2010 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu ymrwymadau gweithredwyr sy'n gosod pren a chynnyrch pren ar y farchnad. Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod y Rheoliadau'n gallu parhau i weithio mewn cysylltiad â mewnfurio pren a gosod pren a chynnyrch pren ar y farchnad. Mae'r darpariaethau yn yr offeryn hwn yn gysylltiedig â'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Pren a Chynnyrch Pren a FLEGT (Ymadael â'r UE) 2018.
- Rheoliad (EC) rhif 10134/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gludo llwythi o wastraff, i sicrhau bod y Rheoliadau'n gallu parhau i weithio. Bydd yn sefydlu gweithdrefnau a systemau rheoli ar gyfer cludo llwythi o wastraff a'r driniaeth a roddir i'r gwastraff wedi iddo gyrraedd pen ei daith. Mae'r darpariaethau yn yr offeryn hwn yn gysylltiedig â'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Cludo Llwythi Gwastraff yn Rhyngwladol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018, ac yn eu hategu.
- Rheoliad y Cyngor (EEC) rhif 3254/91 sy'n gwahardd defnyddio trapiau dal coesau yn y Gymuned; a Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 35/97 sy'n pennu'r darpariaethau ar ardystio crwyn a nwyddau a ddaw o dan Reoliad y Cyngor (EEC) rhif 3254/91. Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod y Rheoliadau'n gallu parhau i weithio o ran y gwaharddiad ar ddefnyddio trapiau dal coesau yn y Gymuned a chyflwyno i'r DU grwyn a nwyddau a weithgynhyrchir o rywogaethau penodol o anifeiliaid gwyllt sy'n dod o wledydd sy'n eu dal mewn trapiau dal coesau neu â dulliau trapio nad ydynt yn cydymffurfio â safonau trapio dyngarol rhyngwladol. Mae'r darpariaethau yn yr offeryn hwn yn gysylltiedig â'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Mewnfurion a Chwyn Trapiau Dal Coesau (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2018.
- Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 338/97 ar warchod rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion gwyllt, i sicrhau bod y Rheoliadau'n gallu parhau i weithio. Bydd yn rheoleiddio'r fasnach er mwyn gwarchod rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion gwyllt ac yn gwarantu eu cadwraeth trwy reoleiddio'r fasnach ynddynt. Mae'r darpariaethau yn yr offeryn hwn yn gysylltiedig â'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau'r Fasnach Rhyngwladol mewn Rhywogaethau Anifeiliaid a Phlanhigion Gwyllt sydd mewn Perygl (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018.

Mae Rheoliadau 2019 yn trosglwyddo hefyd un o swyddogaethau Comisiwn yr UE a geir yn:

- Cyfarwyddeb 2010/75/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor ar allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd mewn ffordd integredig) sy'n pennu'r rheolau ar atal a rheoli llygredd sy'n deillio o weithgareddau diwydiannol penodol mewn ffordd integredig. Trwy gynnwys y swyddogaeth yn Rheoliadau 2019, bydd deddfwriaeth ddomestig yn gallu gweithio'n effeithiol i gynnal proses ar gyfer sefydlu ac adolygu'r Technegau Gorau sydd ar Gael trwy'r DU ar ôl yr UE ar gyfer gweithgareddau diwydiannol er mwyn diddymu neu leihau llygredd. Mae'r darpariaethau yn yr offeryn hwn yn gysylltiedig â'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018.

Mae Rheoliadau 2019 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith y diwygiadau ar gael yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/pOgYfClx>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**75 - Rheoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwyllt (Swyddogaethau
Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 8 Ionawr 2019

Sifftio

A fydd angen sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Ty'r Cyffredin	Amh
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Ty'r Arglwyddi	21/01/2019
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 9
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ty'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Ty'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosglwyddo swyddogaethau deddfwriaethol o Gomisiwn yr UE i awdurdodau cyhoeddus yn y DU. Mae'r swyddogaethau sy'n ymwneud â meysydd polisi datganoledig wedi'u nodi ar hyn o bryd yn Rheoliadau'r UE (ac un Gyfarwyddeb yr UE) sy'n cwmpasu llygryddion organig parhaus, pren, Cofrestr Ewropeaidd ynghylch Gollwng a Throsglwyddo Llygryddion, mercwri ac allyriadau diwydiannol. O safbwynt meysydd polisi datganoledig yng Nghymru, rhoddir rhai swyddogaethau i Weinidogion Cymru.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 10 Rhagfyr 2018 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

1. Mae Protocol Nagoya yn ymwneud â mynediad at adnoddau genetig (Rheoliad 511/2014 yr UE). Dywed Llywodraeth Cymru nad yw'n ymarferol bosibl i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â Phrotocol Nagoya yn annibynnol ar Lywodraeth y DU. Felly, rhoddir swyddogaethau ar yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig esboniad dros hyn. **Rydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i roi rhagor o fanylion.**
2. O ran gweddill Rheoliadau'r UE (a'r un Gyfarwyddeb) sy'n ymwneud â meysydd polisi datganoledig, sef-
 - Llygryddion Organig Parhaus (Rheoliad 850/2004 y CE);
 - Cofrestr Ewropeaidd ynghylch Gollwng a Throsglwyddo Llygryddion (Rheoliad 166/2006 y CE);
 - Mercwri (Rheoliad 2017/852 yr UE); ac
 - Allyriadau Diwydiannol (Cyfarwyddeb 2010/75 yr UE (a ddisgrifir yn natganiad Llywodraeth Cymru fel "mabwysiadu casgliadau BAT")) dywed Llywodraeth Cymru nad oes "dim effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad". Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r honiad hwn yn gywir a **gwahoddir esboniad pellach**. Mae ein rhesymu fel a ganlyn.
3. Pan roddir swyddogaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn maes a ddaw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gallai hyn gael yr effaith o gyfyngu ar allu'r Cynulliad i ddeddfu yn y maes hwn.
4. Ni all Deddf y Cynulliad ddileu neu addasu swyddogaeth Gweinidog y Goron sy'n ymwneud (ymhlith pethau eraill) â rheoli llygredd adnoddau dŵr oni bai bod y Gweinidog yn cydsynio (gweler paragraff 11 (1) (c) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).
5. Os yw'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud â rheoli llygredd o'r fath, yna ni fydd gan y Cynulliad gymhwysedd i gael gwared â'r swyddogaeth honno heb gydsyniad Llywodraeth y DU. Mae hyn er gwaethaf y ffaith y bydd y swyddogaeth yn gweithredu mewn maes datganoledig.
6. **Rydym yn gofyn am fanylion pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch a oes unrhyw rai o'r swyddogaethau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â rheoli llygredd adnoddau dŵr (neu unrhyw fater arall a restrir ym mharagraff 11 (1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).** Heb ragor o fanylion, ni allwn gadarnhau cywirdeb honiad Llywodraeth Cymru nad oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

7. Yn ogystal, mae gwall bach iawn ym mharagraff 10 o ddatganiad Llywodraeth Cymru: dylai ddarllen Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 338/97 (nid 338/1997).
8. Ar wahân i'r pwyntiau a wneir uchod ym mharagraffau 3 – 6, mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith. Rydym yn fodlon bod y Rheoliadau yn gwneud cywiriadau yn hytrach na pholisi newydd mewn meysydd datganoledig.
9. I gadarnhau'r sefyllfa o ran pwyntiau 3–6 uchod, byddai angen y wybodaeth ychwanegol a ddisgrifir uchod arnom.
10. Nid yw'r Cyngorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

DYDDIAD 11 Ionawr 2019

GAN Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Deddfwriaeth Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys

- "Rheoliad REACH," sy'n golygu Rheoliad (EC) 1907/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â Chofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegion (REACH), sefydlu Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd, diwygio Cyfarwyddeb 1999/45/EC a oedd yn diddymu Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 793/93 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1488/94 yn ogystal â Chyfarwyddeb y Cyngor 76/769/EEC a Chyfarwyddebau'r Comisiwn 91/155/EEC, 93/67/EEC, 93/105/EC, a 2000/21/EC.
- "y Rheoliad Dulliau Profi", sy'n golygu Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 440/2008 dyddiedig 30 Mai 2008 sy'n pennu dulliau profi yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1907/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â REACH;
- "y Rheoliad Data," sy'n golygu Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2016/9 dyddiedig 5 Ionawr 2016 ar gyd-gyflwyno data a rhannu data yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1907/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â REACH;
- "y Rheoliad Ffioedd," sy'n golygu Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 340/2008 ar y ffioedd a'r taliadau sy'n daladwy i'r Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1907/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynglŷn â REACH;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2017) 3439 dyddiedig 24.5.2017 yn rhoi awdurdod i ddefnyddio cromiwm triocsid o dan REACH, a'r
- cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Crynodeb o'r is-ddeddfwriaeth sydd i'w chywiro

- Rheoliadau Gorfodi REACH 2008;
- Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polychlorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) 2000; a
- Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) 2009

Mae'r darnau a ganlyn o gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn cael eu diddymu—

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 506/2007 dyddiedig 8 Mai 2007 yn gosod gofynion o ran profi a gwybodaeth ar fewnforwyr neu weithgynhyrchwyr sylweddau penodol â blaenoriaeth yn unol â Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 793/93 ar werthuso a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â sylweddau sy'n bodoli eisoes;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1238/2007 dyddiedig 23 Hydref 2007 ar bennu rheolau ar gymwysterau aelodau Bwrdd Apêl yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 465/2008 dyddiedig 28 Mai 2008 yn gosod, yn unol â Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 793/93, ofynion o ran profi a gwybodaeth ar fewnforwyr a gweithgynhyrchwyr sylweddau penodol a all fod yn barhaus, yn fiogronnol ac yn wenwynig ac sy'n cael eu rhestru yn y Rhestr Ewropeaidd o Sylweddau Cemegol Masnachol sy'n Bodoli Eisoes;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 466/2008 dyddiedig 28 Mai 2008 yn gosod gofynion o ran profi a gwybodaeth ar fewnforwyr a gweithgynhyrchwyr sylweddau penodol â blaenoriaeth yn unol â Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 793/93 ar werthuso a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â sylweddau sy'n bodoli eisoes;
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 771/2008 dyddiedig 1 Awst 2008 yn gosod y rheolau ar drefniadaeth a gweithdrefnau Bwrdd Apêl yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd;
- Penderfyniad y Comisiwn 2010/226/EU dyddiedig 20 Ebrill 2010 ar ailedrych ar y cyfyngiad mewn perthynas â pharaffinau clorinedig cadwyni-byr (SCCPs) a restrir yn Atodiad XVII i Reoliad (EC) Rhif 1907/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor.

Dirymu is-ddeddfwriaeth

- Rheoliadau REACH (Penodi Awdurdodau Cymwys) 2007

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r gyfundrefn REACH yn cwmpasu materion sydd wedi'u datganoli a materion a gadwyd yn ôl, oherwydd bwriedir iddi ddiogelu iechyd a diogelwch gweithwyr (mater sydd wedi'i chadw'n ôl yng Nghymru a'r Alban) yn ogystal ag iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd (materion sydd wedi'u datganoli).

Mae Atodlen 1 i Reoliadau 2019 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1907/2006. Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas â Chofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegion ("Rheoliad REACH"), i'w cyflawni gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chaniatâd Gweinidogion Cymru os yw arfer y swyddogaethau hynny, neu i'r graddau y mae arfer y swyddogaethau hynny, o fewn cymhwysedd datganoledig (o fewn ystyr adran 58A(7) ac (8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) pa un a yw arfer y swyddogaethau hefyd yn gysylltiedig â rhan o'r DU heblaw Cymru ai peidio.

Mae'r gweinyddiaethau datganoledig wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i greu, trwy gyfrwng y rheoliadau hyn, gyfundrefn REACH annibynnol gweithredol sy'n cadw dulliau REACH yr UE, sydd wedi'u cysoni, ond sydd hefyd, ar yr un pryd yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau ar lefel y DU gyfan mewn meysydd datganoledig gyda chydysyniad y gweinyddiaethau datganoledig, ac sy'n cael ei hategu gan erthyglau sy'n caniatáu i bob un o'r gweinyddiaethau weithredu ar eu pen eu hunain os bydd angen gwneud hynny er mwyn diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud yr addasiadau sydd eu hangen er mwyn parhau i gymhwyso'r rheolau presennol a nodir mewn cyfraith ar ôl i'r DU Ymadael â'r UE. Maent yn arbennig o bwysig er mwyn hwyluso cadwyni cyflenwi cemegion, sy'n hollbwysig ym maes gweithgynhyrchu ac mewn diwydiannau sy'n defnyddio cemegion, oherwydd eu bod yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn mewnforio sylweddau a chymysgeddau cemegol i'r DU, cyn eu gweithgynhyrchu neu cyn eu rhoi ar y farchnad.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith y diwygiadau i'w gweld yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/1VgjAPt3>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**76 - Rheoliadau REACH etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019
("Rheoliadau 2019")**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 9 Ionawr 2019

Sifftio

A fydd angen sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Ty'r Cyffredin	Amh
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Ty'r Arglwyddi	21/01/2019
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 11
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ty'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Ty'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8, 14(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 1, Atodlen 4 i'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro diffygion yng nghyfraith yr UE sy'n gysylltiedig â chofrestru, gwerthuso, awdurdodi a chyfyngu cemegau, a elwir yn 'REACH'. Mae'r offeryn hefyd yn sicrhau y bydd deddfwriaeth yr UE yn gweithredu'n effeithiol yn y cyd-destun domestig ar ôl i'r DU ymadael â'r UE a chreu system reoleiddiol y DU ar gyfer cemegau (yn debyg i gyfundrefn 'REACH' bresennol yr UE) drwy wneud diwygiadau i offerynnau Ewropeaidd sy'n uniongyrchol berthnasol a hefyd i is-

ddeddfwriaeth ddomestig. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud darpariaethau pontio i liniaru unrhyw amharu ar gadwyni cyflenwi presennol.

Mae trefn REACH yn ymwneud â materion datganoledig a rhai a gadwyd yn ôl, gan ei bod wedi'i chynllunio i ddiogelu iechyd a diogelwch gweithwyr (mater sydd wedi'i gadw yn ôl yng Nghymru) yn ogystal ag iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd (sydd wedi'u datganoli).

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 11 Ionawr 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

DYDDIAD 18 Ionawr 2019

GAN Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("y Rheoliadau") - cadarnhaol
- dyddiad gosod disgwylidiedig

Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio

- Rheoliad (EC) 1924/2206 - gosod y fframwaith cyfreithiol y mae'n rhaid i fusnesau gydymffurfio ag ef os am wneud honiadau ynghylch maeth neu iechyd er mwyn sicrhau bod yr honiadau yn gywir ac nad yw defnyddwyr yn cael eu camarwain.
- Rheoliad (EC) 353/2008 - sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer ceisiadau i awdurdodi honiadau iechyd.
- Rheoliad (EC) 2013/63 - mabwysiadu canllawiau i weithredu amodau penodol ar gyfer honiadau iechyd a osodir.
- Rheoliad (EC) 907/2013 - gosod rheolau ar gyfer ceisiadau yn ymwneud â defnyddio disgrifyddion cyffredinol.
- Rheoliad (EC) 984/2009 - gwrthod awdurdodi honiadau iechyd penodol ar fwyd, ac eithrio'r rhai sy'n cyfeirio at leihau afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.
- Rheoliad (EC) 1024/2009 - awdurdodi a gwrthod awdurdodi honiadau iechyd penodol ar fwyd yn cyfeirio at ostwng y perygl o afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.
- Rheoliad (EC) 1025/2009 - gwrthod awdurdodi honiadau iechyd penodol ar fwyd, ac eithrio'r rhai sy'n cyfeirio at ostwng y perygl o afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.
- Rheoliad (EC) 1167/2009 - gwrthod awdurdodi honiadau iechyd penodol ar fwyd, ac eithrio'r rhai sy'n cyfeirio at ostwng y perygl o afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.
- Rheoliad (EC) 1168/2009 - gwrthod awdurdodi honiad iechyd ar fwyd, ac eithrio'r rhai sy'n cyfeirio at ostwng y perygl o afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.
- Rheoliad (EU) 375/2010 - gwrthod awdurdodi honiad iechyd ar fwyd, ac eithrio'r rhai sy'n cyfeirio at ostwng y perygl o afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.

- Rheoliad (EU) 382/2010 - gwrthod awdurdodi honiadau iechyd penodol ar fwyd, ac eithrio'r rhai sy'n cyfeirio at ostwng y perygl o afiechyd ac at ddatblygiad ac iechyd plant.
- Rheoliad (EC) 1925/2006 - pennu pa fitaminau, mwynau, a sylweddau penodol eraill y gellir eu hychwanegu at fwydau a sylweddau newydd gael eu hasesu

a'u cymeradwyo; ac amlinellu gofynion cyfansoddiadol a labelu ar gyfer bwydydd sydd â sylweddau wedi'u hychwanegu atynt.

- Rheoliad (EC) 307/2012 - sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer defnyddio pwerau i atal, cyfyngu, neu graffu ar sylwedd.
- Rheoliad (EU) 489/2012 a oedd yn sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer defnyddio Erthygl 16 o Rheoliad (EC) 1925/2006 ar ychwanegu fitaminau, mwynau, a sylweddau penodol eraill at fwydydd yn cael ei ddiddymu.
- Rheoliad (EC) 609/2013 - gosod rheolau cyffredinol ynghylch cyfansoddiad a labelu ar bedwar categori o fwyd sef fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol, grawnfwydydd a bwydydd babanod wedi'u prosesu, bwyd at ddibenion meddygol arbennig (bwydydd angenrheidiol ar gyfer rheoli cyflyrau meddygol penodol) a chynnyrch amnewid deiet yn llwyr mewn deietau cyfyng o ran ynni er mwyn rheoli pwysau.
- Rheoliad (EC) 983/2009 - gosod gofynion ar sylweddau y gellir eu hychwanegu at ddibenion maeth penodol mewn bwydydd ar gyfer defnydd maeth arbennig.
- Rheoliad (EC) 953/2009 - gosod gofynion ar sylweddau y gellir eu hychwanegu at ddibenion maeth penodol mewn bwydydd ar gyfer defnydd maeth arbennig.
- Rheoliad Dirprwyedig (EU) 2016/128 - ategu Rheoliad (EU) 609/2013 o ran gofynion cyfansoddiad a gwybodaeth benodol ar gyfer bwydydd at ddibenion meddygol arbennig.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru yn ddilyffethair. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth lle gallai Gweinidogion Cymru ddarparu cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru ar eu rhan.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddir â chydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd mewn deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn ymwneud â maeth. Bydd y Rheoliadau yn gwneud diwygiadau technegol i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir heb wneud unrhyw newid sylweddol i lefelau amddiffyn iechyd pobl nac i safon uchel y bwyd y mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl mewn nwyddau a gynhyrchir yn y wlad hon a nwyddau sy'n cael eu mewnfario.

Bydd y Rheoliadau yn gwneud cywiriadau technegol megis diddymu cyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac unrhyw Aelod-wladwriaethau eraill, ac yn diffinio 'trydydd gwledydd' fel unrhyw wlad y tu allan i'r DU.

Mae'r prif gywiriadau sy'n cael eu cynnig gan y Rheoliadau hyn yn cynnwys trosglwyddo'r swyddogaethau cynghori gwyddonol a ysgwyddir ar hyn o bryd gan Awdurdod Diogelwch

Bwyd Ewrop i gyrff priodol sydd eisoes yn bodoli yn y DU neu i Bwyllgor Honiadau Iechyd a Maeth newydd yn y DU. Bydd y pwyllgor newydd hwn yn cael ei sefydlu dan Public Health England, ac fe fydd yn gyfrifol am gadarnhau honiadau yn wyddonol a darparu cyngor i bedair gweinyddiaeth y DU am unrhyw honiadau iechyd a maeth a wneir yn y DU ar ôl ymadael.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/Bdvh0XZU>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

77 - Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 16 Ionawr 2019

Sifftio

A fydd angen sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Ty'r Cyffredin	Amh
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Ty'r Arglwyddi	21/01/2019
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 13
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ty'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Ty'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Mae'r Datganiad Ysgrifenedig yn cyfeirio at Reoliadau a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 16 Ionawr 2019. Ar ôl hynny cafodd y Rheoliadau eu tynnu yn ôl, a gosodwyd fersiwn newydd o Reoliadau ar 17 Ionawr. Nid yw'n glir pam mae Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, a osodwyd ar 18 Ionawr, yn cyfeirio at y Rheoliadau hynny a dynnwyd yn ôl. Codwyd ymholiad gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) a 23, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Diben yr offeryn hwn yw unioni diffygion yn neddfwriaeth y DU yn ymwneud â maeth, yn deillio o'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ("UE"), pe bai'r DU yn gadael heb gytuno ar fargen. Mae'r offeryn hwn yn

diwygio deddfwriaeth ddomestig bresennol, a deddfwriaeth yr UE ddargedwir, yn ogystal â diddymu rhai darnau o ddeddfwriaeth trydyddol gysylltiedig yr UE na fydd yn gymwys i'r DU mwyach ar ôl gadael.

Y meysydd pwnc a gwmpesir gan y ddeddfwriaeth maeth hon yw: honiadau maeth ac iechyd a wneir ar fwyd; ychwanegu fitaminau, mwynau a rhai sylweddau penodol eraill i fwydydd; cyfansoddiad a labelu ychwanegion bwyd; cyfansoddiad a labelu bwyd ar gyfer grwpiau penodol; a gwerthu cynnyrch sy'n cynnwys Kava-kava.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 18 Ionawr 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

1. Nid yw'r datganiad yn gwneud yn glir bod y rhestr o gyfraith yr UE a ddargedwir a gaiff ei diwygio gan yr offeryn, fel y'i darperir yn y datganiad, yn rhestr gynhwysfawr. Mae cyfres o gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n destun newidiadau mân a thechnegol gan yr offeryn hwn nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr yn natganiad Llywodraeth Cymru.
2. Hefyd, mae cyfraith yr UE a ddargedwir a ganlyn wedi'u cynnwys yn y rhestr o gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio, pan mewn gwirionedd maent yn cael eu dirymu gan yr offeryn hwn:
 - 2013/63/EU: Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (sy'n cael ei alw yn Rheoliad (EC) 2013/63 mewn camgymeriad yn natganiad Llywodraeth Cymru) - mabwysiadu canllawiau i weithredu amodau penodol ar gyfer honiadau iechyd a osodir yn Erthygl 10 o Reoliad (EC) Rhif 1924/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor;
 - Rheoliad (EU) Rhif 907/2013 gosod rheolau ar gyfer ceisiadau yn ymwneud â defnyddio disgrifyddion cyffredinol (enwau);
 - Rheoliad (EU) 489/2012 a oedd yn sefydlu rheolau gweithredu ar gyfer defnyddio Erthygl 16 o Reoliad (EC) 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegu fitaminau, mwynau, a sylweddau penodol eraill at fwydydd (er, yn yr achos hwn, mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn nodi bod y disgrifiad yn y rhestr yn gwneud yn glir y bydd Rheoliad (EU) Rhif 489/2012 yn cael ei ddirymu).
3. Yn ogystal, mae gwall yn natganiad Llywodraeth Cymru, yn y rhestr o gyfraith ddiwygiedig yr UE a ddargedwir. Dylai'r pwynt bwled cyntaf nodi Rheoliad (EC) 1924/2006 (nid 1924/2206).
4. Er bod y Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau o ran Cymru yn ddilyffethair, maent hefyd yn cynnwys darpariaeth lle gallai Gweinidogion Cymru roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau o ran Cymru ar eu rhan.
5. Byddai swyddogaethau a drosglwyddir â chydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Coron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth

berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y pynciau a amlinellir yn y crynodeb i'r adroddiad hwn yn y dyfodol.

6.

Ac eithrio'r pwyntiau a nodir uchod ym mharagraffau 1-5, mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Eich cyf/Your ref: EJ/CE
Ein cyf/Our ref:FM -/00858/18

Elin Jones AC/AM
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

11 Ionawr 2019

Annwyl Elin

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr 4 Rhagfyr at fy rhagflaenydd fel Prif Weinidog, ynghylch craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Brexit a sut i sicrhau y gall y Cynulliad Cenedlaethol chwarae rhan lawn wrth ddeddfu ar gyfer Brexit.

Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru'n adlewyrchu'r ffaith bod gwir angen ymateb i'r amgylchiadau eithriadol ynghylch Brexit, yn hytrach nag unrhyw ymdrech i lesteirio neu gyfyngu ar rôl y Cynulliad fel deddfwrfa.

Gallaf gadarnhau bod y cywiriadau sy'n cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth a wneir yng Nghymru gan y Cynulliad a Gweinidogion Cymru, fel y bo modd gweithredu Llyfr Statud Cymru o hyd adeg ymadael â'r UE, yn cael eu cyflawni mewn hyd at 50 o Offerynnau Statudol, i'w gwneud gan Weinidogion Cymru, ac yn cael eu gosod yn y Cynulliad. Bydd hyn yn hwyluso gwaith craffu llawn gan y Cynulliad gan sicrhau bod y cywiriadau'n cael eu gwneud yn y ddwy iaith swyddogol.

Er hynny, bu angen gweithio gyda Llywodraeth y DU ar agweddau eraill ar y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit.

Mae'n wir bod Gweinidogion Cymru'n ceisio pwerau dirprwyedig o dan dri o Filiau Brexit sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd, a'n bod yn mynd ar drywydd y dull gweithredu hwn, o dan yr amgylchiadau, yn hytrach na chyflwyno Biliau i'r Cynulliad. Rwyf yn cytuno nad yw'r weithdrefn Cydsyniad Deddfwriaethol a nodir yn Rheol Sefydlog 29 yn caniatáu i'r Aelodau graffu ar y ddeddfwriaeth hon gyda'r un manylder ag ar gyfer Bil gan y Cynulliad. Er hynny, pan fyddwn yn siarad am wneud penderfyniadau deddfwriaethol ar sail effeithlonrwydd, rhaid cydnabod nad cyfleuster gweinyddol yn unig yw hyn. Ni fyddem wedi llwyddo i gyflwyno'r swmp hwn o ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad mewn amserlen mor

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gywasgedig. Bydd Llywodraeth Cymru, i'r graddau y bo modd yn yr amserlen sydd gennym, yn ceisio hwyluso gwaith craffu gan y Cynulliad trwy ymgysylltu amserol ac ymatebol.

Fel y gwyddoch, ers Mai 2016, mae'r Cynulliad wedi pasio deg Bil (un ohonynt yn aros am y Cydsyniad Brenhinol), ac ar hyn o bryd mae pedwar Bil gerbron y Cynulliad i'w hystyried. O safbwynt is-ddeddfwriaeth, mewn blwyddyn nodweddiadol, mae rhyw 150 o Offerynnau Statudol yn cael eu gosod yn y Cynulliad.

Pe baem wedi penderfynu bod holl ddeddfwriaeth ymadael â'r UE mewn meysydd datganoledig yn mynd i gael ei gwneud yng Nghymru, yna rhwng Medi 2018 a Mawrth 2019 byddai wedi bod yn ofynnol gosod 200 o Offerynnau Statudol ychwanegol a 4-6 o Filiau ychwanegol yn y Cynulliad. Hyd yn oed pe bai modd atal holl fusnes arall y Llywodraeth a'r Cynulliad am y cyfnod hwn, byddai rhaglen ddeddfwriaethol Brexit wedi gofyn am dreulio chwe mis o amser y Cynulliad a'r Llywodraeth yn gwneud mwy o ddeddfwriaeth nag a wneir mewn blwyddyn yng Nghymru fel rheol. Ni fyddai modd pasio'r Biliau angenrheidiol yn yr amser hwnnw trwy ddilyn gweithdrefn garlam a fyddai'n cyfyngu ar allu'r Cynulliad i graffu arnynt.

Ar hyn o bryd rwyf yn disgwyl i 140-150 o Offerynnau Statudol ymadael â'r UE gan Lywodraeth y DU gael eu gwneud mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru cyn y diwrnod ymadael, er y gallai'r nifer hwn newid wrth i Offerynnau Statudol gael eu huno neu eu dadgyfuno. Bydd bron pob un o'r rhain yn gorfod cael cydsyniad Gweinidogion Cymru trwy'r broses a nodir yn y Cytundeb Rhynglywodraethol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cydsynio i Offerynnau Statudol y DU yn unig lle nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Cymru a'r DU, ac ar y sail honno nid yw'r Offerynnau Statudol yn sensitif yn wleidyddol. Gwneir yr Offerynnau Statudol hyn at ddibenion gwneud cywiriadau fel y bydd modd gweithredu'r llyfr statud adeg ymadael â'r UE ac maent yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae Llywodraeth yr Alban yn mabwysiadu'r un dull gweithredu ag sydd gennym yng Nghymru gyda nifer tebyg o Offerynnau Statudol yn cael eu symud ymlaen gan Lywodraeth y DU ar ran yr Alban.

Mae eich llythyr yn crybwyll y defnydd o bwerau cydredol. Mae penderfyniadau ynghylch pwy a ddylai arfer pwerau a roddir i endidau'r UE ar ôl ymadael yn cael eu hystyried yng nghyd-destun pob Offeryn Statudol, yn dibynnu ar natur y pŵer o dan sylw, ac a oes ffactorau'n bodoli sy'n golygu nad yw'n ddymunol i weinyddiaeth arfer y pŵer hwnnw heb ymwneud gweinyddiaeth arall. Lle bo swyddogaeth o fewn maes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru, ein safbwynt diofyn yw y dylid cyflwyno'r swyddogaeth berthnasol i Weinyddogion Cymru neu i gorff cyhoeddus priodol yng Nghymru. Er hynny, ceir nifer o amgylchiadau lle na fydd y safbwynt diofyn yn briodol nac yn ymarferol. Mae'r rhain yn debygol o godi, er enghraifft:

- Lle bo natur drawsffiniol darparu gwasanaethau'n gofyn am gydweithredu agos rhwng y ddwy wlad, er budd dinasyddion neu i osgoi gosod baich diangen ar sefydliadau. Gallai hyn fod oherwydd y ffordd y mae pobl neu nwyddau'n teithio dros y ffin, neu nodweddion daearyddol arbennig y ffin.
- Mae'r agweddau datganoledig a heb eu datganoli ym maes cyflawni polisi yn cydblethu gymaint â'i gilydd, fel nad yw'n ymarferol i'r elfennau datganoledig gael eu cyflawni heb gyfeirio at yr elfennau heb eu datganoli, neu i'r gwrthwyneb.

Yn yr achosion hyn mae ystod o opsiynau ar gyfer sut y gellir arfer swyddogaethau, ac mae'r Gweinidogion yn dod i benderfyniad ar bob un o Offerynnau Statudol unigol y DU ar ôl ystyried yr holl faterion perthnasol. Un o ganlyniadau cynnwys y ddwy weinyddiaeth yn y gwaith o arfer swyddogaethau yw creu pwerau cydredol.

Mae'r Cynulliad wedi diwygio Rheolau Sefydlog i hwyluso craffu ar Offerynnau Statudol ymadael â'r UE gan Lywodraeth y DU. Mae fy swyddogion wedi ymateb iddynt trwy osod 76 o ddatganiadau ysgrifenedig yn eu cylch pan gânt eu gosod yn Senedd y DU a hefyd 14 o Femoranda Cydsyniad Offerynnau Statudol. Caf ar ddeall fod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn bwriadu cynhyrchu adroddiad ar ôl toriad y Cynulliad ar y datganiadau ysgrifenedig sydd wedi'u gosod hyd yn hyn. Edrychaf ymlaen at gael yr adroddiad hwnnw ac at ystyried unrhyw welliannau y mae'r Pwyllgor yn eu hargymell.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a'r Darpar Gwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit.

Rwyf yn gobeithio bod cynnwys y llythyr hwn yn rhoi sicrwydd bod y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru wedi'u cynllunio i gydbwyso'r set eithriadol o alwadau sy'n cael eu creu gan Brexit, a bod Llywodraeth Cymru'n wedi ymrwmo o hyd i ddarparu'r cyfleoedd ymarferol mwyaf posibl ar gyfer craffu ar y camau deddfwriaethol hynny sydd â diben perthnasol, yn hytrach na thechnegol yn unig. Rydym wedi ymrwmo, wrth gwrs, i gadw hyn i gyd o dan ystyriaeth ac rydym yn croesawu'r ddeialog ar y materion hyn y mae eich llythyr wedi'i sbarduno.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

MARK DRAKEFORD



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/CE

4 Rhagfyr 2018

Annwyl Carwyn

Yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 28 Tachwedd 2018 trafodwyd rôl y Cynulliad a'i bwyllgorau wrth graffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Brexit. Mynegodd y Cadeiryddion bryder sydd ganddynt ynghylch rôl y Cynulliad yn y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit.

Dywedodd y Cadeiryddion fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru yn nifer o Filiau'r DU sy'n ymwneud â Brexit, yn hytrach na chyflwyno ei Biliau ei hun i'r Cynulliad graffu arnynt. O ran yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gywiro'r llyfr statud cyn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, deallaf eich bod wedi cytuno i gyfran sylweddol o'r ddeddfwriaeth hon gael ei gwneud gan Weinidogion y DU, gan ddefnyddio pwerau cydredol ar ran Gweinidogion Cymru.

Er fy mod i, a Fforwm y Cadeiryddion, yn deall eich bod wedi gwneud y penderfyniadau hyn ar sail effeithlonrwydd i'r llywodraethau sy'n rhan o'r broses, y pryder a fynegwyd gan y Cadeiryddion yw bod hyn yn dod ar draul rôl y Cynulliad ac felly gallu'r Aelodau i gynrychioli buddiannau pobl Cymru yn effeithiol yn y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit.

Wrth gynrychioli'r safbwyntiau a fynegwyd imi gan y Cadeiryddion, a chan weithredu er budd sefyllfa'r Cynulliad ym mhroses Brexit, rwy'n pryderu mai effaith gronol y penderfyniadau hyn gan Lywodraeth Cymru yw anwybyddu rôl y Cynulliad yn anfwriadol.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

Tudalen y pecyn 120

0300 200 7403



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod craffu ar ddeddfwriaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, yn enwedig mewn perthynas â meysydd polisi pwysig sy'n effeithio ar ddinasyddion, yn elwa o waith craffu llawer mwy penodol i Gymru pan gaiff ei hystyried gan y Cynulliad.

Nid yw'r cyfle cyfyngedig ar gyfer gwaith craffu a gynigir gan gonfensiynau cydsyniad deddfwriaethol a gweithdrefnau cysylltiedig yn cyd-fynd â phrosesau craffu deddfwriaethol llawn y Cynulliad.

At hynny, mae gwaith craffu deddfwriaethol gan y Cynulliad yn cynnig proses fwy hygyrch a thryloyw i randdeiliaid Cymru a'r cyhoedd, yn ogystal â sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gwneud yn ein dwy iaith swyddogol.

Yn union fel yr ydych wedi ymdrechu i sicrhau rôl i Lywodraeth Cymru ym mhroses Brexit, rhaid imi sicrhau bod y Cynulliad, a'i Aelodau, yn gallu chwarae'r rôl llawn y cawsant eu hethol i'w chyflawni.

Rwy'n deall bod pwyllgorau'r Cynulliad yn bwriadu ymgymryd â gwaith pellach yn y maes hwn ac rwy'n siŵr y byddant yn parhau i godi materion gyda chi a Gweinidogion Cymru.

Yn y cyfamser, gofynnaf ichi ystyried y pryderon a fynegwyd a byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau ar sut y gallech sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i alluogi'r Cynulliad i chwarae ei ran llawn wrth ddeddfu ar gyfer Brexit.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion pwyllgorau'r Cynulliad, Arweinydd y Tŷ, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (yn sgil ei rôl ym mhroses Brexit).

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon